



WALES AUDIT OFFICE  
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

Dyddiad: 13 Mehefin 2013  
Ein cyf: HVT/1897/fgb  
Tudalen: 1 o 4

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan  
Cardiff / Caerdydd  
CF11 9LJ  
Tel / Ffôn: 029 20 320502  
Fax / Ffacs: 029 20 320600  
Email / Epost: [wales@wao.gov.uk](mailto:wales@wao.gov.uk)  
[www.wao.gov.uk](http://www.wao.gov.uk)

Ms Sarah Beasley  
Clerc  
Y Swyddfa Ddeddfwriaeth  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd CF99 1NA

*Amwyg Sarah*

#### Y BIL ARCHWILIO AC ATEBOLRWYDD LLEOL: MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

Deallaf y gofynnwyd i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil Archwilio ac Atebolrwydd Lleol Llywodraeth y DU a'ch bod wedi gofyn barn Swyddfa Archwilio Cymru ynglŷn â nifer o faterion sy'n codi o'r memorandwm hwnnw er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor yn ei drafodaethau.

Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn crynhoi'r darpariaethau sydd ym Mil y Deyrnas Unedig y ceisir cydsyniad ar eu cyfer ac yn amlinellu manteision defnyddio Bil y DU sydd ar y gweill ar hyn o bryd yn hytrach na Bil Cynulliad. Yn gryno, byddai Bil y DU (ymysg pethau eraill) yn darparu y byddai dau Fwrdd Draenio Mewnol trawsffiniol yn destun trefniadau archwilio newydd sy'n cael eu gwneud ar gyfer awdurdodau llai yn Lloegr. Noda'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol fod y ddau Fwrdd Draenio Mewnol dan sylw (Bwrdd Draenio Mewnol Gwy Isaf a Bwrdd Draenio Mewnol Powysland) wedi'u lleoli'n rhannol yng Nghymru ac yn rhannol yn Lloegr.

Fe wnaethoch ofyn ein barn ar dri mater.

1. *Byddai'n ddefnyddiol gwybod a oedd y rhan helaethaf o'r Byrddau Draenio Mewnol hyn yng Nghymru ynteu yn Lloegr.*

O edrych ar yr ardaloedd a gwmpesir gan y ddau Fwrdd Draenio Mewnol dan sylw, ymddengys fod mwy na 90 y cant o Fwrdd Draenio Mewnol Powysland yng Nghymru a bod mwy na 60 y cant o Fwrdd Draenio Mewnol Gwy Isaf (gan gynnwys yr unig dref sy'n rhan o'r bwrdd, sef Trefynwy) yng Nghymru.

Yn ogystal â'r tri Bwrdd Draenio Mewnol sydd wedi'u lleoli'n gyfan gwbl neu'n rhannol yng Nghymru, ceir 11 o Ardaloedd Draenio Mewnol. Atodir rhestr o'r ardaloedd hyn i'r llythyr hwn. Mae pob un o'r rhain yn y Gogledd ac fe'u gweinyddwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd. Nid yw'n eglur ai Byrddau Draenio y dylai'r Ardaloedd Draenio hyn fod

wedi bod o ran eu cyfansoddiad cyfreithiol ac felly y dylent fod yn destun apwyntiadau archwilio unigol ac mae fy swyddogion yn ymchwilio i hyn.

2. *Noda'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hefyd fod y ddau Fwrdd Draenio Mewnol hyn yn cael eu harchwilio yn unol â chyfundrefn archwilio Lloegr ar hyn o bryd. Unwaith eto, os yw'r wybodaeth gennych, byddai'n ddefnyddiol gwybod y rhesymau dros hyn.*

Pan gyflwynwyd Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) polisi sylfaenol Llywodraeth y DU o ran pob corff trawsffiniol oedd na ddylai fod unrhyw newid, e.e. os oedd archwilydd corff trawsffiniol wedi'i benodi gan y Comisiwn Archwilio yna dylai barhau i gael ei benodi gan y Comisiwn Archwilio yn hytrach na chael ei drosglwyddo i Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Noda'r memorandwm esboniadol i Ddeddf 2004 nad yw'n effeithio ar unrhyw drefniadau archwilio ar gyfer cyrff trawsffiniol (paragraff 4).

3. *Yn olaf, rwy'n siŵr y byddai o ddiddordeb i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus wybod a oes gan Swyddfa Archwilio Cymru farn ynghylch a fyddai'n briodol cymhwyso'r gyfundrefn archwilio newydd ar gyfer Lloegr i'r ddau Fwrdd Draenio Mewnol trawsffiniol hyn, ynteu a ddylent fod yn rhan o'r gyfundrefn archwilio yng Nghymru.*

Mae caniatáu i unrhyw gorff cyhoeddus benodi ei archwilydd ei hun yn mynd yn groes i Egwyddorion Archwilio Cyhoeddus. Nid ydym yn credu bod trefniadau o'r fath yn fuddiol o ran sicrhau stiwardiaeth briodol o arian cyhoeddus.

Derbynnir Egwyddorion Archwilio Cyhoeddus yn gyffredinol a chawsant eu codeiddio gan y Fforwm Archwilio Cyhoeddus<sup>1</sup> yn 1998 a'u cymeradwyo gan adroddiad yr Arglwydd Sharman yn 2001<sup>2</sup>. Mae'r egwyddorion fel a ganlyn:

- penodir archwilwyr yn annibynnol ar y cyrff a gaiff eu harchwilio;
- mae gwaith archwilwyr yn cwmpasu nid yn unig archwilio datganiadau ariannol, ond agweddau ar lywodraethu corfforaethol a threfniadau i sicrhau'r defnydd darbodus, economaidd ac effeithiol o adnoddau; a
- gall archwilwyr adrodd yn helaeth i'r cyhoedd ac i randdeiliaid eraill.

O gofio'r materion llywodraethu a ddaeth i'r amlwg ym Mwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg, byddai'n bryder mawr pe caniateid i Fyrddau Iechyd Mewnol a ariennir drwy ardollau ar awdurdodau lleol Cymru (a thalwyr ardrethi

<sup>1</sup> Mae'r Fforwm Archwilio Cyhoeddus yn cynnwys y pum asiantaeth archwilio cyhoeddus sydd yn y DU: y Swyddfa Archwilio Genedlaethol; y Comisiwn Archwilio; Audit Scotland; Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon a Swyddfa Archwilio Cymru.

<sup>2</sup> *Holding to Account, The Review of Audit and Accountability for Central Government*, Adroddiad gan yr Arglwydd Sharman o Redlynch, Trysorlys Ei Mawrhydi, 13 Chwefror 2001

Dyddiad: 13 Mehefin 2013  
Ein cyf: HVT/1897/fgb  
Tudalen: 3 o 4

yng Nghymru) benodi archwilyr eu hunain. Heb y cam diogelu a ddaw yn sgil penodiad annibynnol, byddai archwilyr yn wynebu pwysau cynyddol i wneud neu i beidio â gwneud gwaith penodol, ac i adrodd yn breifat - neu i beidio ag adrodd o gwbl - yn hytrach nag adrodd yn gyhoeddus yn unol â'n harfer.


Hoffwn nodi hefyd fod Bwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg yn darparu gwasanaethau i Fwrdd Draenio Mewnol Gwy Isaf. Er bod gan Gwy Isaf ei fwrdd ei hun caiff holl swyddogaethau'r Bwrdd Draenio Mewnol eu gweinyddu gan Fwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-Coed a Gwynllŵg, gan gynnwys gwasanaethau ysgrifenyddiaeth, cyllid, adnoddau dynol ac ati y bwrdd, yn ogystal â gwasanaethau peirianeg. Yn y gorffennol mae Bwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg hefyd wedi darparu gwasanaethau i Fwrdd Draenio Mewnol Powysland yn ogystal â Byrddau Draenio Mewnol eraill.

Fel y Comisiwn Archwilio mae gan Swyddfa Archwilio Cymru gyfundrefn archwilio sicrwydd cyfyngedig. Yng Nghymru y trothwy rhwng y gyfundrefn sicrwydd cyfyngedig a sicrwydd rhesymol yw £1 miliwn; yn Lloegr mae'n £6.5 miliwn. Yn wahanol i Fwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg, daw Byrddau Draenio Mewnol Powysland a Gwy Isaf o dan y trothwy £1 miliwn a byddent, felly, yn destun archwiliad sicrwydd cyfyngedig. Felly byddai cost y gwaith archwilio arferol a'r ffi yn fach iawn.

Os bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros swyddogaethau Byrddau Draenio Mewnol yna byddai hyn yn cael ei gwmpasu gan ein harchwiliad o Cyfoeth Naturiol Cymru.

Dros y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf mae fy archwilyr wedi meithrin dealltwriaeth dda iawn o gymhlethdod y cyrff cymharol fach hyn. Rydym felly mewn sefyllfa dda i ymgymryd â gwaith archwilio ar unrhyw fyrddau draenio eraill a byddem yn falch o wneud hynny.

Hyderaf fod y wybodaeth hon yn ddefnyddiol i chi.

*Tu gynt*  


**HUW VAUGHAN THOMAS**  
**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

*Amg*

Dyddiad: 13 Mehefin 2013  
Ein cyf: HVT/1897/fgb  
Tudalen: 4 o 4

## **ARDALOEDD DRAENIO MEWNOL**

Ardal Draenio Mewnol Afon Ganol

Ardal Draenio Mewnol Cors Ardudwy

Ardal Draenio Mewnol Cors y Borth

Ardal Draenio Mewnol Dyffryn Dysynni

Ardal Draenio Mewnol Glaslyn - Pensyflog

Ardal Draenio Mewnol Harlech a Maentwrog

Ardal Draenio Mewnol Llanfrothen

Ardal Draenio Mewnol Malltraeth

Ardal Draenio Mewnol Mawddach ac Wnion

Ardal Draenio Mewn Afon Conwy

Ardal Draenio Mewnol Tywyn